

Cyfarfod Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd Ddydd Iau, 14 Rhagfyr 2017 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian, yn swyddfa safle Wylfa Newydd.

Yn Bresennol (sefydliadau yn nhrefn yr wyddor):

Enw	Mudiad
Dennis Evans	Cadeirydd, cynrychiolydd Cyngor Cymuned Rhosybol
Wyn Thomas	Dirprwy Gadeirydd, Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu Grŵp Llandrillo Menai
Jon Bailey	Cape PLC – Aelod o'r Cyhoedd
Susan P Scott	Sefydliad y Merched Ynys Môn
Arolygydd Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid/ Pwynt Cyswllt Unigol yr Adeilad Niwclear Newydd
Gerry Belanger	Cynrychiolydd Cyngor Tref Amlwch
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf / Ynni Talybolion
Dylan Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd G.O Jones	Cynghorydd Ward Llifon Ynys Môn
Y Cynghorydd John Griffith	Cynghorydd Ward Talybolion Ynys Môn
Y Cynghorydd Kenneth P Hughes	Cynghorydd Ward Talybolion Ynys Môn
Y Cynghorydd Llinos Medi Huws	Cynghorydd Ward Talybolion Ynys Môn (Arweinydd y Cyngor)
Y Cynghorydd Aled Morris Jones	Cynghorydd Ward Twrcelyn Ynys Môn
Y Cynghorydd Richard Griffiths	Cynghorydd Ward Twrcelyn Ynys Môn
Y Cynghorydd Dafydd Griffiths	Cynrychiolydd a Chadeirydd Cyngor Cymuned Llanelian
Gafyn Jones	Magnox Ltd
Colin Smith	Magnox Ltd
Mari Faulkner	Aelod o'r Cyhoedd
Mel O'Hara	Aelod o'r Cyhoedd
Andrew Connolly	National Grid
Gareth Williams	National Grid
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Jamie Thomas	Cynrychiolydd ar ran Rhun ap Iorwerth AC
John Idris Jones	Ardal Fenter Eryri
Iwan Williams	Taith i Waith
Anna M Jones	Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Tref Alaw (clerc)
Dr Tom Conway	Cynrychiolydd Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Alwyn Rowlands	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

Ymddiheuriadau

Enw	Mudiad
Siân Gwenllian AC	Aelod Cynulliad Arfon
Janet Finch-Saunders AC	Aelod Cynulliad Conwy
Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC	Aelod Cynulliad Dwyfor Meirionnydd
Rhun ap Iorwerth AC	Aelod Cynulliad Ynys Môn
Andrew Haigh	Cynorthwydd Nathan Gill ASE

Yr Athro David Shepherd	Prifysgol Bangor
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Ynys Môn
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Y Cynghorydd John Jukes	Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd
Lyndsey Campbell-Williams	Lleisiau Lleol (ieuenctid/Medrwn Môn)
Medwyn Williams	Magnox Ltd
Stuart Law	Magnox Ltd
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Hywel Williams AS	Aelod Seneddol Arfon
Liz Saville Roberts AS	Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd
Derek Vaughan ASE	Aelod Gogledd Cymru yn Senedd Ewrop
Derek Gadsdon	Aelod o'r Cyhoedd
John Cadwaladr Jones	Aelod o'r Cyhoedd
Michael Dodds	Aelod o'r Cyhoedd
Rita Lyon	Rheolwr Clwstwr Ynys Môn Cymunedau yn Gyntaf Môn
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa
Mark Thornton	Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Pwyllgor Ynys Môn
Alli Hunt	Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Abi Hughes	Anabledd Taran
David Hawkins	Unite the Union
Michelle Brown AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ogledd Cymru
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost at yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost at yholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac ewch i www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar wefan Grŵp Cyswllt y Prosiect: <http://www.wylfaplg.com/cymraeg/>

1. Croeso, cofnodion cyfarfod Medi 2017 a materion yn codi – Dennis Evans, Cadeirydd

- Croesawodd Dennis Evans (**DE**) bawb i'r cyfarfod am 5.35pm. Fe wnaeth sylwadau ar y newyddion a ddaeth i law ynglŷn â chwblhau'r broses Asesiad Dyluniad Generig ar gyfer Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU – byddai'r manylion yn cael eu rhoi'n nes ymlaen yn y cyfarfod.
- Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu derbyn a'u cymeradwyo gan **DE**.
- Materion yn codi o'r cofnodion:
 - Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) – ai un neu ddau gais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu fyddai'n cael ei wneud mewn perthynas â'r National Grid. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno yn nes ymlaen yn y cyfarfod.
 - T6 – byddai materion ynglŷn â'r A5025 hefyd yn cael eu trafod yn y cyfarfod.

2. Y diweddaraf am Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru – National Grid. Hwn oedd y cyflwyniad cyntaf ar ôl y cofnodion.

- Rhoddodd Gareth Williams (**GW**) ac Andrew Connolly (**AC**) o'r National Grid gyflwyniad ar gysylltu'r gwaith o gynhyrchu ynni carbon isel yng Ngogledd Cymru. Cyflwynwyd manylion ynglŷn ag amseru'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu sydd ar y gweill ar gyfer cysylltiad Wylfa Newydd. Byddai Gorchymyn Cydsyniad Datblygu'r National Grid yn cael ei gyflwyno ar ôl un Horizon. Roedd nifer o bartion – fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn – yn rhan o brosiectau Gorchymyn Cydsyniad Datblygu mawr iawn ac maent wedi gwneud cais am fwlch rhwng y dyddiadau cyflwyno, er mwyn gallu rhoi'r sylw angenrheidiol i bob cais.
- Cyflwynwyd digwyddiadau'r hydref. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau ar yr effaith amgylcheddol, asesiadau o dyllau turio daearegol, ac arolygon amgylcheddol ac ecolegol. Mae ceblau tanddaearol yn cael eu dargyfeirio er mwyn gallu gweithio ar y traciau newydd ar y safle. Roedd llwybr peilonau i Gaergybi a phrosiect ailwampio ar y gweill hefyd.
- Roedd y National Grid hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda chynlluniau ar gyfer trydedd bont dros y Fenai. Roedd y Llywodraeth wedi mynd at y National Grid er mwyn gwneud cais i helpu gydag astudiaeth i asesu'r gwaith o osod ceblau ar draws trydedd bont. Byddai hyn yn diwallu'r angen am adeiladu twnnel tanddaearol ar gyfer ceblau o dan Gulfor Menai. Byddai'r gwaith ar yr adroddiad yn dechrau fis Ionawr.

Cwestiynau a sylwadau:

- Gofynnodd **DE** am fanylion ynghylch amserlen waith yr astudiaeth dichonolrwydd. Cadarnhawyd y byddai'n para tua 18 mis.
- Gofynnodd **DE** a fyddai'r National Grid yn cynnal dau Orchymyn Cydsyniad Datblygu, h.y. un ar gyfer y bont ac un ar gyfer y twnnel ceblau tanddaearol?
 - Cadarnhaodd **GW** mai dim ond y twnnel ceblau fyddai'n cael ei gynnwys yn y cais.
- Gwnaeth Colin Smith (**CS**) sylw bod y 2-3 opsiwn gwreiddiol a oedd wedi ymddangos mewn cylchlythyr i bobl leol yn cynnwys opsiwn ar gyfer gosod ceblau ar hyd gwely'r môr, a gafodd ei ddiystyru oherwydd y gost. Pe bai trydedd bont, a fyddai hynny'n golygu y byddai opsiwn gwely'r môr yn cael ei ystyried?
 - Atebodd **GW** drwy ddweud bod cost ceblau ar y môr yn sylweddol ddrytach a'u bod nawr yn canolbwyntio ar gymharu defnyddio twnnel a phont. Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer ceblau ar wely'r môr.
- Gwnaeth y Cyngorydd Richard Griffith (**RG**) gais am wybodaeth i gael gwybod a fyddai peilonau'n cael eu gosod ar draws Ynys Môn.
 - Cadarnhaodd **GW** bod y cyfnod ymgynghori diwethaf wedi cynnig peilonau. Bydd y National Grid yn bwrw ymlaen â chais am linell uwchben newydd ledled yr ynys.
- Gofynnodd **JJJ** a oedd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear wedi trafod prif gynllun rheoli trychineb mewn perthynas â chysylltiad y rhwydwaith trawsyrru â'r National Grid.
- - Cadarnhaodd **GW**, er nad oedd trafodaethau ynglŷn â hyn wedi'u cynnal hyd yn hyn, ei fod yn fodlon ymgysylltu ag unrhyw un ar unrhyw adeg.

- Gofynnodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws (**LIMH**) sut oedd trafodaethau â Llywodraeth Cymru yn datblygu mewn perthynas â'r drydedd bont dros y Fenai a'r ceblau ar draws y culfor.
- - Nododd Gareth Williams bod trafodaethau wedi cael eu cynnal a bod astudiaeth dichonolrwydd yn cael ei chynnal i edrych ar yr opsiynau a'r heriau mewn perthynas â thrydedd bont. Roeddent mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru bob dydd. Mynegodd **LIMH** ei bod yn siomedig â'r cynlluniau, yn enwedig ar ôl cael trafodaeth gadarnhaol ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn Llywodraeth Cymru.

3. Cyflwyniad a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Wylfa Newydd – Pŵer Niwclear Horizon

- Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gan Sasha Davies (**SD**), Pennaeth Datblygu Strategol Cymru. Nodwyd bod gwaith Duncan Hawthorne gyda llywodraethau'r DU a Japan yn mynd rhagddo'n gadarnhaol. Mae nifer o fuddsoddwyr posibl wedi bod ar daith o amgylch y safle ac mae gwsteion o Japan wedi cael eu cyflwyno i dîm Horizon.
- Cafodd y prif gerrig milltir ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf eu nodi, ac fe nodwyd y canlynol gan SD:
 - Presenoldeb llwyddiannus Horizon yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
 - Mae trydydd cam yr ymgynghoriad â'r gymuned wedi cael ei gynnal.
 - Mae'r ail garfan o brentisiaid wedi dechrau ar y Cynllun Prentisiaeth Dechnegol, a bydd y gwaith o hysbysebu ar gyfer y drydedd garfan yn dechrau yn y flwyddyn newydd.
 - Mae'r Cais am Drwydded Safle Niwclear wedi cael ei gyflwyno i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR).
 - Mae dau gais cynllunio wedi cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn, un ar gyfer paratoi a chlirio'r safle, a'r llall ar gyfer y gwaith o wella ffordd bresennol yr A5025 rhwng y Fali a'r safle.
 - Mae'r cais cyntaf am drwydded wedi cael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru, sef y drwydded Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol.
 - Mae'r Asesiad Dyluniad Generig (GDA) wedi'i gwblhau.
- Dangoswyd sleid a oedd yn rhoi manylion ynghylch gwaith Horizon gyda chyrrff addysgol
 - Mae gwaith STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) wedi cael ei gynnal ag ysgolion yr ynys.
 - Bu carfan gyntaf o brentisiaid Horizon yn ymweld â Japan yn ystod yr haf, a oedd yn gyfle gwych iddyn nhw.
 - Rhoddwyd clod i Awen Ashworth, swyddog addysg Horizon, am ei gwaith gwych yn cysylltu ag ysgolion.
- Mae datblygiad a sgiliau'r gadwyn gyflenwi wedi cefnogi:
 - Merched ym maes Niwclear, a lansio cangen Sefydliad Niwclear Gogledd Cymru ym mis Hydref.
 - Cyflwyno rhaglen beilot Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd.
 - Ymgysylltiad parhaus â busnes drwy'r Ffederasiwn Busnesau Bach, CBI a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Cyflwynwyd manylion y gwaith yn y gymuned. Mae dros £70,000 wedi cael ei ddyfarnu i achosion da yng Ngogledd Cymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw wedi mynd tuag at

brosiectau bach, pwysig mewn cymunedau. Mae Horizon hefyd wedi parhau i gefnogi mudiadau lleol. Mae dros 400 o bobl wedi dod i ddiwrnodau agored a sesiynau cloddio archaeolegol cymunedol ar y safle, gan gynnwys disgyblion o nifer o'r ysgolion lleol.

- Cafodd y gweithgarwch diweddar ar y safle ei restru. Roedd llawer iawn o waith ar y gweill, a oedd yn cyflogi cymaint o gontractwyr lleol â phosibl. Mae tua thraean o'r contractwyr yn lleol ac roedd **SD** yn rhagweld y byddai hyn yn cynyddu.
- Cyflwynodd Roger Parkinson (**RP**), y Pennaeth Datblygu Prosiect, y wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau a thrwyddedau. Ar yr adeg, roedd dau gais wedi'u cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn. Roedd y cyntaf yn ymwneud â Pharatoi a Chlirio'r Safle, a oedd wrthi'n mynd drwy broses adolygu ac ymgynghori. Roedd y cais yn cynnwys tynnu coed, dymchwel sguboriau a nodweddion cysylltiedig. Pe bai'r cais yn llwyddiannus, byddai'r gwaith yn dechrau yn ystod gwanwyn 2018 ac yn cymryd 15 mis i'w gwblhau. Roedd angen i'r gwaith gael ei reoli yn ôl y tymhorau o ganlyniad i fywyd gwyllt, a byddai'r holl waith yn digwydd mewn camau.
- Dangoswyd amserlen ar gyfer gwaith paratoi a chlirio'r safle ar ffurf siart, ac fe gadarnhaodd **RP** y byddai'r tir yn aros yn wyrdd gan na fyddai gwaith stripio pridd sylweddol yn cael ei gynnal.
- Nododd **RP** fod yr ail gais i Gyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud â gwelliannau i ffordd bresennol yr A5025, a'i fod wedi'i dderbyn gan y cyngor ar 12 Rhagfyr. Yn amodol ar gydsyniad, byddai'r gwaith yn dechrau ddiwedd yr haf / ddechrau'r hydref 2018 a byddai'n cynnwys paratoi rhan bresennol y ffordd ar gyfer traffig, gan gynnwys lledu'r ffordd, rhoi wyneb newydd arni ac adeiladu cyfleuster ailgylchu dros dro ar gyfer deunydd wynebu'r ffordd. Dangoswyd map a oedd yn nodi lleoliadau'r gwaith gwella.
- Cyflwynwyd manylion y cais am drwydded amgylcheddol ar gyfer Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol (RSR). Cafodd hwn ei dderbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd bellach yn ymgynghori yn ei gylch. Byddai tri chais arall yn cael eu cyflwyno yn 2018, ar gyfer trwyddedau morol, hylosgi a rhyddhau dŵr cynnes.
- Rhestrod **RP** y gwaith arfaethedig ar gyfer 2018, a oedd yn cynnwys:
 - Cyflwyno Gorchymyn Cydsyniad Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio. Cafwyd cyngor ac arweiniad gan ymgynghorion a oedd wedi datgelu ffiniau llinell goch yn y cais y byddai angen eu harchwilio ymhellach. Byddai ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal fis Ionawr.
 - Dyddiad cymeradwyo i anelu ato ar gyfer y Cais am Drwydded Safle gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.
 - Bydd y cyfnod ymgeisio ar gyfer y garfan nesaf o brentisiaid yn dechrau fis Ionawr 2018, gyda chynllun graddedigion i ddilyn.
 - Bydd Horizon yn mynd i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018.
 - Bydd y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael ei gyflwyno ddiwedd mis Mawrth 2018, gyda'r archwiliad cyhoeddus yn dechrau yn hyrach yn ystod 2018. Disgwyliwyd y byddai'r cais yn cael ei dderbyn tua 16 mis ar ôl ei gyflwyno.

Cwestiynau a sylwadau:

- Fe wnaeth John Idris Jones (**JII**) longyfarch Horizon am gefnogi'r Eisteddfod eleni ac am ei fwriad i'w chefnogi yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf. Roedd hefyd yn falch o glywed am y prentisiaid a fyddai'n cael eu derbyn a gofynnodd pryd byddai'r cynllun i raddedigion yn dechrau? Gofynnodd

hefyd a fyddai disgyblion chweched dosbarth yn cael eu cefnogi, er enghraifft, drwy ysgoloriaethau.

- - Ymatebodd **SD** bod Horizon, fel cwmni, wedi ymrwymo i groesawu rhagor o raddedigion. Cyn gynted ag y byddai'r wybodaeth hon ar gael, byddai'n cael ei rhannu â Grŵp Cyswllt y Prosiect.
- Gofynnodd **JJJ** am ragor o eglurder o ran a fyddai Horizon yn hyrwyddo swyddi i raddedigion o Ogledd-orllewin Cymru a sut oedd pynciau fel peirianeg yn cael eu hyrwyddo ymysg disgyblion chweched dosbarth yn lleol.
- - Cadarnhaodd **SD** bod adolygiad o hyn yn cael ei gynnal gyda'r ysgolion, yn ogystal â chynghorau Gwynedd a Chonwy, a bod llawer iawn o waith yn cael ei wneud i hyrwyddo pynciau STEM mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ogystal â phynciau STEM, byddai adeiladu yn cael ei ychwanegu at y gweithgareddau cysylltu ag ysgolion.
- Gofynnodd **JJJ** a oedd Horizon wedi rhoi amod yn ei gontractau gwaith, yn gofyn i gontractwyr sydd wedi'u penodi gyflogi prentisiaid lleol.
 - Cadarnhaodd **RP** fod Horizon wedi cynnwys amod.
- Gofynnodd **DE** am eglurhad o ran a fyddai'r gwaith ar yr A5025 yn cael ei reoli gan Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru, gyda chyllid gan Horizon. Cafodd hyn ei gadarnhau.
- Cododd **DE** y mater bod trafodaethau blaenorol wedi cynnwys cais i ledu ffordd yr A5025 er mwyn cydymffurfio â'r hyn sy'n dderbyniol ar hyn o bryd. Roedd dwy ran gul ger Cefn Coch ac nid oedd y cynlluniau'n nodi y byddai'r rhain yn cael eu lledu oherwydd coed. Fe gwestiynodd **DE** a fyddai hynny'n creu man cyfyng peryglus?
 - **Cam Gweithredu – Dywedodd Charlie Tasker (CT) y byddai modd cyflwyno manylion y cynlluniau ar gyfer yr A5025 yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cyswllt y Prosiect, er mwyn cynnwys gwybodaeth am led y ffordd yn y rhannau hyn.**
- Nododd Dr Tom Conway (**TC**) nad oedd y cynlluniau ar gyfer yr A5025 yn cynnwys troadau Betws ac fe gadarnhaodd **DE** mai dim ond y cynlluniau ar gyfer yr A5025 rhwng safle Wylfa Newydd a'r Fali oedd yn cael eu dangos.
- Cadarnhaodd **RP** nad oedd yr A5025 o'r safle i Amlwch yn rhan o'r llwybr traffig dynodedig, ond ei fod wedi codi fel mater a oedd yn peri gofid yn ymgynghoriadau Horizon. Mae Horizon yn ymwybodol o deimladau pobl leol ynglŷn â'r rhan hon o'r ffordd, ac mae'n ystyried yr adborth yn ei chylch ar hyn o bryd.
- Nododd y Cynghorydd Aled Morris Jones (**AMJ**) ei bod yn galonogol clywed bod Horizon yn ystyried bod angen gwella'r A5025 o'r safle i Amlwch a throadau Betws. Dywedodd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn datblygu cynlluniau ar gyfer y ffordd hon ers 2013 ac y byddai ei adran Prifffyrdd yn fodlon rhannu'r cynlluniau hyn â Horizon.

- Ail-gododd **TC** y mater ynghylch a fyddai llwybrau beicio yn cael eu cynnwys yn y gwelliannau i'r ffyrdd.
 - Dywedodd **CT** ei bod yn annhebygol y byddai llwybrau beicio'n cael eu hystyried oherwydd y materion diogelwch.
- Gofynnodd y Cyngorydd Dafydd Griffiths (**DG**) am ragor o fanylion am y cais i Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â rheoli tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio.
 - Cadarnhaodd **DE** y byddai hyn yn cael ei drafod yn nes ymlaen yn y cyfarfod.
- Gwnaeth **DG** sylw ei fod yn awyddus iawn i weld pobl ifanc leol yn cael eu cyflogi fel prentisiaid ac fe holodd a fyddai gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn fanteisiol i'r rheini sy'n gwneud cais am brentisiaethau yn 2018.
 - Cadarnhaodd **SD** bod y meini prawf yn nodi bod y Gymraeg a'r Saesneg mor ddymunol â'i gilydd ar gyfer y swyddi hyn. Gallai'r iaith Gymraeg fod o fantais i'r ymgeiswyr pe bai'r holl ffactorau eraill yn gyfartal.
- Gofynnodd **DG** am eglurhad ynghylch y cynlluniau i glirio'r safle, gan ofyn a fyddai modd adfer y tir i'w gyflwr blaenorol pe na bai Wylfa Newydd yn mynd rhagddo.
 - Cadarnhaodd **RP** y byddai cyllid yn cael ei neilltuo i adfer y tir yn llawn pe na bai Wylfa Newydd yn mynd rhagddo.
- Roedd y Cyngorydd Gwilym O. Jones (**GOJ**) yn croesawu dull 'gweithio mewn partneriaeth' Horizon ac fe ddywedodd bod y £70,000 y mae Horizon wedi'i gyfrannu i fudiadau lleol wedi cael ei werthfawrogi'n fawr. Gofynnodd hefyd am gadarnhad ynghylch a oedd y bobl ifanc sydd wedi cael eu derbyn fel prentisiaid hyd yn hyn bellach mewn swyddi peirianyddol?
 - Dywedodd **SD** mai prentisiaid technegol yw'r rheini sydd wedi'u cyflogi hyd yn hyn, ond bod Horizon yn trafod â Menter Newydd ynglŷn â'r posibiladau ar gyfer prentisiaethau adeiladu. Mae'n debygol y bydd cannoedd o brentisiaethau yn ystod y cyfnod adeiladu. Roedd prentisiaethau uwch a phrentisiaethau gradd hefyd yn cael eu trafod gyda cholegau addysg bellach a phrifysgolion.
- Ychwanegodd Wyn Thomas (**WT**) y byddai prentisiaid ar yr ynys yn cael budd o'r ganolfan beirianeg sydd wrthi'n cael ei hadeiladu gan Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni, a fydd yn cael ei chwblhau ymhen 12 - 15 mis. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r ganolfan hyfforddiant sgiliau adeiladu, a fyddai'n fuddiol i ddysgwyr a fydd yn gweithio ar nifer o ddatblygiadau seilwaith newydd yn y blynyddoedd nesaf.

4. Y diweddaraf am yr Asesiad Dyluniad Generig – Hitachi Nuclear Energy Europe

- Cyflwynodd Tristram Denton (**TD**) wybodaeth am gwblhau'r Asesiad Dyluniad Generig (GDA). Rhoddwyd crynodeb o'r GDA o ran ei fod yn asesiad rheoleiddiol gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn pennu a fyddai dyluniad adweithydd yn addas i'w roi ar waith ar safle generig yn y DU. Dechreuodd y gwaith ar y GDA yn 2013 a chafodd y dogfennau cadarnhau eu llofnodi gan y rheoleidiwr ddiwrnod ynghynt. Roeddent bellach ar gael i'w gweld ar wefan y cwmni.

- Cyflwynwyd manylion yr hyn roedd y cais am Asesiad Dyluniad Generig yn ei gynnwys. Roedd 300 o staff llawn amser wedi gweithio arno am dros 4 blynedd yn Japan a'r DU. Roedd yn cynnwys tîm prosiect ar y cyd rhwng Hitachi-GE, Horizon a GE-Hitachi. Gwnaed dros 6000 o geisiadau rheoleiddiol yn ystod y cyfnod hwnnw, ac fe gafodd 1,519 o ymholiadau rheoleiddiol eu codi a'u cau yn ystod y broses, yn ogystal ag 82 o sylwadau rheoleiddiol a 2 broblem reoleiddiol a gafodd eu datrys ill dwy. Mae tua £39 miliwn wedi cael ei ddarparu i reoleiddwyr am waith y mae modd codi tâl amdano.
- Cynghorwyd Grŵp Cyswllt y Prosiect i edrych ar y dogfennau perthnasol ar-lein yn
 - www.hitachi-hgnc-uk-abwr.com
 - Gwefan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear www.onr.org.uk/new-reactors/uk-abwr/index.htm
 - Gwefan Llywodraeth y DU <https://www.gov.uk/government/collections/assessing-new-nuclear-power-station-designs>
 - Cyfoeth Naturiol Cymru <https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/our-role-in-nuclear-regulation/?lang=en>
- Rhoddwyd eglurhad o ystyr "cwblhau llwyddiannus". Cyhoeddwyd Cadarnhad Derbyn Dyluniad (DAC) gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Datganiad o Dderbynioldeb Dyluniad (SODA) gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU. Roedd hyn yn caniatáu i Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU symud ymlaen at drwyddedu penodol i safle, gan fod y dyluniad cyffredinol wedi'i dderbyn. Fodd bynnag, nid oedd yn rhoi caniatâd i Horizon adeiladu Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, a byddai angen i ddyluniad cyffredinol y safle gael ei gymeradwyo er mwyn gwneud hynny.
- Rhestrwyd pwyntiau o ddiddordeb, gan gynnwys mai Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU oedd y drydedd dechnoleg erioed i dderbyn DAC a SODA. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn ganlyniad uchelgeisiol iawn yn 2013 ac roedd yn sefydlu agwedd dda ar gyfer symud ymlaen.
 - Newidiodd rhai pethau yn ystod yr Asesiad Dyluniad Generig, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd yn dilyn Fukushima, newidiadau mewn amddiffyniad awyrennau ers 2011 a gofynion penodol y DU, oherwydd bod gwahaniaethau rhwng gwahanol wledydd. Pwysleisiodd **TD** y byddai gan safleoedd penodol eu dyluniadau eu hunain. Doedd derbyn y DAC a'r SODA ddim yn golygu bod y dyluniad yn derfynol. Yn y dyfodol, byddai angen mynd i'r afael â chanfyddiadau'r asesiad, h.y. agweddau ar y GDA lle roedd gofyn am wybodaeth benodol i'r safle. Cafwyd canfyddiadau yn yr asesiad a oedd rywffaint drosodd, a byddai angen rhagor o wybodaeth ar y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ynghylch hyn maes o law.
- I gloi, nododd **TD** bod Hitachi-GE eisiau darparu technoleg brofedig sy'n gweithio'n ddiogel i'w gleient, yn unol â'r amserlen sydd wedi'i phennu.

Cwestiynau a sylwadau:

- Fe wnaeth **JJJ** longyfarch Hitachi-GE a'r tîm am gwblhau'r broses mewn modd mor llyfn; roedd hyn yn rhoi hyder i ni y byddai'r dyluniad yn gweithio'n ddiogel. O ran symud ymlaen i'r cam nesaf, gofynnodd faint o'r gwaith dylunio a gwblhawyd fel rhan o broses GDA fyddai'n berthnasol i safle Wylfa Newydd?

- Dywedodd **TD** bod y GDA yn ‘asesiad generig’ a bod tîm Hitachi-GE yn cynorthwyo Horizon er mwyn helpu i fynd i’r afael a’r elfennau mwy penodol o’r dyluniad sy’n ofynnol.
 - Ymatebodd Paul Stevens (**PS**) hefyd drwy ddatgan bod y broses GDA yn ymwneud â chraidd yr orsaf bŵer ac y byddai angen ystyried yr holl faterion penodol i’r safle, gan gynnwys diogelwch, wrth symud ymlaen o ddyluniad generig i un penodol.
- Nododd Mel O’Hara (**MO’H**) ei fod wedi mynd i un o gyflwyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru sbel yn ôl, lle rhoddwyd gwybodaeth am ryddhau niwclidau, a bod disgwyl i ymbelydredd niwclear cefndirol gynyddu ym Mae Cemaes pan fyddai’r orsaf bŵer newydd yn weithredol.
 - - Ymatebodd **DE** drwy ddweud y byddai’r cwestiwn hwnnw’n cael ei godi’n nes ymlaen yn y cyfarfod.
 - Ychwanegodd **TD** y byddai’r allyriadau hyn i gyd yn is – ac weithiau’n sylweddol is – na’r cyfyngiadau derbyniol a bennir gan Reoleiddwyr yn y DU.
 - Fe wnaeth **AMJ** longyfarch Hitachi-GE ar gyrraedd y garreg filltir arwyddocaol hon, a nodi bod yr adweithyddion sydd wedi’u hadeiladu hyd yn hyn wedi bod yn unol â’r amserlenni a’r costau a bennwyd. Fe wnaeth hefyd ganmol Hitachi-GE am nifer y cwestiynau yr oeddent wedi’u hateb drwy gydol y broses GDA.
 - Aeth y cyflwyniad yn ei flaen gyda Paul Stevens (**PS**) yn cymryd yr awenau. Dangoswyd sleidiau a oedd yn rhoi manylion y camau nesaf ac yn egluro’r broses bontio rhwng asesiad generig i asesiad penodol i’r safle. Roedd y gwaith o ddatblygu dyluniad penodol i Wylfa ar y gweill erbyn hyn. Roedd y GDA yn ymwneud ag un uned a byddai gan Wylfa Newydd ddwy. Pan fyddwn yn fodlon ar y fanyleb, bydd y dyluniad yn cael ei drosglwyddo i’r rheoleiddwyr, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i’w asesu ymhellach.
 - Eglurodd **PS** y broses trwyddedu dyluniadau. Yn 2006, cyflwynwyd proses dau gam ar gyfer trwyddedu’r dyluniad – y GDA yw Cam 1 ac mae Cam 2 yn cynnwys trwyddedau a chaniatadau sy’n benodol i’r safle.
 - Dangoswyd graffig am sut cafodd Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch ei adeiladu yn Japan, yn unol ag addasiadau a’r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i Fukushima. Cafodd hyn wedyn ei drosglwyddo i Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, a gafodd ei symud ymlaen at ddyluniad penodol i Wylfa Newydd.
 - Cafodd y camau nesaf eu cyflwyno a byddai angen i Horizon sicrhau amrywiaeth o gysyniadau a chaniatadau ar eu cyfer. Mae’r rhain yn cynnwys y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, Trwyddedau Adeiladu, Trwyddedau Amgylcheddol, Cyflwyniadau Euratom, a’r Cais am Drwydded Safle.
 - Nododd **PS** bod adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Wylfa Newydd, sy’n ddarn o waith sylweddol, hefyd wedi’i gwblhau bellach.

5. Y diweddaraf am gais am drwydded amgylcheddol Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol – Cyfoeth Naturiol Cymru

- Cyflwynodd Iwan Williams (**IW**) y wybodaeth ddiweddaraf am swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ran asesu ac ymgynghori ynghylch nifer o drwyddedau amgylcheddol gwahanol a gyflwynwyd gan Horizon. Mae'r rhain yn cynnwys y drwydded Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol (testun ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd) a phedwar cais arall am drwyddedau a ddisgwyllir gan Horizon yn ystod 2018.
- Y cais am drwydded Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol yw'r cyntaf i gael ei gyflwyno, ac roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau'r broses ymgynghori, a oedd ar agor tan 14 Ionawr 2018. Sicrhawyd bod dogfennau a ddefnyddiwyd yn y sesiynau galw heibio ar gael i'r rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Sicrhawyd bod y dogfennau hefyd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Y prif bwynt a oedd wedi'i gynnwys yn y rheoliadau hyn oedd lefel y gwastraff ymbelydrol yn yr aer a'r effeithiau ar bobl a oedd yn byw yn yr ardal. Pe bai'r gwaith yn Wylfa Newydd yn mynd rhagddo, byddai Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd yn monitro allyriadau adweithyddion a sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded. Roedd rhan benodol o'r drwydded hon yn cynnwys sicrhau bod gan Horizon system fonitro briodol, yn ogystal â'r adnoddau a'r sgiliau er mwyn gallu cydymffurfio â'r holl reoliadau. Pwysleisiodd **IW** os oedd gan unrhyw rai o aelodau Grŵp Cyswllt y Prosiect sylwadau, y dylent eu cyflwyno erbyn 14 Ionawr.
- Nododd **IW** bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i roi arweiniad i Horizon ynglŷn â'r broses gwneud cais cynllunio a'i fod wedi dychwelyd at nifer o ddogfennau yn ystod y misoedd diwethaf mewn perthynas â disgwyliadau, er mwyn sicrhau nad effeithir ar yr amgylchedd, yn benodol drwy'r gwaith adeiladu a'r gwaith o redeg yr orsaf bŵer yn y dyfodol.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl am nifer o geisiadau gan Horizon, a phan fyddai'n cael y rheini, byddai'r gwaith o ymgynghori â'r gymuned leol yn mynd rhagddo, yn ystod gwanwyn 2018 mae'n debyg.

Cwestiynau a sylwadau:

- Mynegodd **MO'H** ei bryderon ynglŷn â phlisma gollyngiadau a lefelau ymbelydredd, a gofynnodd am fanylion ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ollwng o'r orsaf bŵer.
 - Eglurodd Gareth Beard (**GB**), yr arweinydd technegol ar gyfer trwyddedau yn Horizon, bod y cais yn rhoi manylion yr union isotopau a ddisgwyllir yn y gollyngiadau. Eglurodd y byddai un o nodweddion yr Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch yn cynnwys ac yn ailgylchu cymaint o ddŵr â phosibl mewn perthynas ag allyriadau i'r aer. Mae'r union fanylion i'w gweld yn y cais a byddant yn rhan o asesiad manwl Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'r rhain yn cael eu 'plisma' gan y Rheoleiddwyr.
- Diolchodd **JJJ** i **GB** am y manylion ac fe nododd na fyddai'r gollyngiadau yn wahanol i'r hyn a oedd yn cael ei ollwng o hen orsaf bŵer Wylfa yn y gorffennol, ac y byddai mewn gwirionedd yn is na hynny yn y rhan fwyaf o achosion. Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd gweithdrefnau monitro'r rheoleiddiwr. Mae ymbelydredd yn amrywio ledled y wlad ac roedd yn bwysig bod hynny'n cael ei egluro'n glir. Roedd y dosau radiolegol a bennwyd gan Hitachi-GE yn isel iawn.

- Cernyw yw'r ardal o'r DU sydd â'r lefel uchaf o ymbelydredd cefndir naturiol, gyda thua 7,000 microsievert bob blwyddyn, ond tua 2,500 yw'r lefel gyfartalog yn y DU. At ddibenion cymharu, roedd model Horizon yn awgrymu y byddai Wylfa Newydd, yn geidwadol, yn ychwanegu rhwng 37 a 38 microsievert at lefel bresennol a naturiol yr ymbelydredd ar Ynys Môn. Mae hyn yn berthnasol i'r unigolyn fyddai, yn ddamcaniaethol, yn wynebu'r effaith fwyaf, ac nid i bob aelod o'r boblogaeth.
- Gofynnodd **DE** a fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghori â'r orsaf bŵer yn Japan. Cadarnhaodd **IW** na fyddan nhw'n gwneud hynny, dim ond canolbwyntio ar yr ardal leol.
- Gofynnodd **MO'H** pryd fyddai pobl leol yn gallu rhoi adborth ar gynigion Horizon i storio tanwydd wedi'i ddefnyddio ar y safle am hyd at 140 o flynyddoedd.
 - Fe wnaeth **SD** atgoffa'r aelodau mai gofyniad a bennwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer pob safle adeiladu niwclear newydd yn y DU yw'r angen i storio tanwydd wedi'i ddefnyddio ar y safle. Roedd cynigion Horizon i storio tanwydd wedi'i ddefnyddio ar y safle eisoes wedi'u cynnwys mewn tri ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai proses archwilio'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn gyfle arall i bobl leol gyflwyno eu safbwyntiau ar y pwnc hwn.

6. Unrhyw fater arall

- Fe wnaeth Richard Foxhall (**RF**), atgoffa'r rheini a oedd yn bresennol y byddai cymhorthfa agored Horizon yn cael ei chynnal yng Nghemaes yr wythnos ganlynol.

7. Cloi

- Daeth **DE** â'r cyfarfod i ben am 19.45.